STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 752

# CONSTITUTIONAL LAW

# DEVOLUTION, WALES

The National Assembly for Wales (Letters Patent) Order 2011

*Made - - - - 16th March 2011*

*Laid before the National Assembly for Wales 23rd March 2011*

*Coming into force - - 5th May 2011*

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2011 No. 752

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011

*Gwnaed - - - - 16eg Mawrth 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23ain Mawrth 2011*

*Yn dod I rym - - 5ed Mai 2011*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No.752

# CONSTITUTIONAL LAW

# DEVOLUTION, WALES

## The National Assembly for Wales (Letters Patent) Order 2011

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *16th March 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *23rd March 2011* |
| *Coming into force - -* | *5th May 2011* |

At the Court at Buckingham Palace, the 16th day of March 2011

Present,

The Queen's Most Excellent Majesty in Council

Her Majesty, in exercise of the powers conferred on Her by section 116(3) of the Government of Wales Act 2006(**1**), is pleased, by and with the advice of Her Privy Council, to order as follows:

### Title, commencement and interpretation

**1.**—(1) The title of this Order is the National Assembly for Wales (Letters Patent) Order 2011 and it comes into force on 5th May 2011.

(2) In this Order "Letters Patent" ("Breinlythyrau") means Letters Patent signed with Her Majesty's own hand signifying Her Assent to a Bill passed by the National Assembly for Wales.

### Form of Letters Patent

**2.** The form of words to be used in Letters Patent is that set out in the Schedule to this Order subject only to such variations as are necessitated by the circumstances.

(**1**) 2006 c. 32.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2011 No. 752

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# DATGANOLI, CYMRU

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011

*Gwnaed - - - - 16eg Mawrth 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23ain Mawrth 2011*

*Yn dod I rym - - 5ed Mai 2011*

Yn Llys Palas Buckingham, ar yr 16eg dydd o Fawrth 2011

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, drwy arfer y pwerau a roddir Iddi gan adran 116(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**), yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 a daw i rym ar 5ed Mai 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Breinlythyrau" ("Letters Patent") yw Breinlythyrau a lofnodwyd gan Ei Mawrhydi â'i llaw ei hunan i ddynodi Ei Chydsyniad i Fil a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Ffurf ar Freinlythyrau

**2.** Y ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio mewn Breinlythyrau yw'r ffurf ar eiriau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig yn unig i unrhyw amrywiadau sy'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau.

(**1**) 2006 p. 32

**Preparation of Letters Patent**

**3.** Letters Patent may be printed or written or partly printed and partly written, and may be prepared on paper or parchment.

**Publication of Letters Patent**

**4.** As soon as is reasonably practicable after Letters Patent under the Welsh Seal are notified to the Clerk, the Keeper of the Welsh Seal must arrange for the Letters Patent to be published in the London, Edinburgh and Belfast Gazettes.

*Judith Simpson*
Clerk of the Privy Council

# SCHEDULE

Article 2

## Form of Letters Patent

"ELIZABETH THE SECOND by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and of Our other Realms and Territories Queen Head of the Commonwealth Defender of the Faith To Our Trusty and well beloved the members of the National Assembly for Wales GREETING:

FORASMUCH as one or more Bills have been passed by the National Assembly for Wales and have been submitted to Us for Our Royal Assent by the Clerk of the National Assembly for Wales in accordance with the Government of Wales Act 2006 the short Titles of which Bills are set forth in the Schedule hereto but those Bills by virtue of the Government of Wales Act 2006 do not become Acts of the National Assembly for Wales nor have effect in the Law without Our Royal Assent signified by Letters Patent under Our Welsh Seal signed with Our own hand We have therefore caused these Our Letters Patent to be made and have signed them and by them do give Our Royal Assent to those Bills which shall be taken and accepted as good and perfect Acts of the Assembly and be put in due execution accordingly COMMANDING ALSO the Keeper of Our Welsh Seal to seal these Our Letters with that Seal.

IN WITNESS WHEREOF We have caused these Our Letters to be made Patent

WITNESS Ourself at . . . the . . . day of. . . in the . . . year of Our Reign

By The Queen Herself Signed with Her Own Hand."

**Llunio Breinlythyrau**

**3.** Caniateir llunio Breinlythyrau mewn print neu mewn ysgrifen, neu'n rhannol mewn print ac yn rhannol mewn ysgrifen, a chaniateir eu llunio naill ai ar bapur neu ar femrwn.

**Cyhoeddi Breinlythyrau**

**4.** Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i Freinlythyrau o dan y Sêl Gymreig gael eu hysbysu i'r Clerc, rhaid i Geidwad y Sêl Gymreig drefnu ar gyfer cyhoeddi'r Breinlythyrau yn The London Gazette, The Edinburgh Gazette a The Belfast Gazette.

*Judith Simpson*
Clerc y Cyfrin Gyngor

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Ffurf ar Freinlythyrau

"ELISABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Teyrnasoedd a'n Tiriogaethau eraill Pennaeth y Gymanwlad Amddiffynnydd y Ffydd At Ein Ffyddlon ac anwylaf aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru CYFARCHION:

YN GYMAINT Â BOD un neu ragor o Filiau, y nodir eu henwau byr yn yr Atodlen i hyn, wedi eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi eu cyflwyno i Ni ar gyfer Ein Cydsyniad Brenhinol gan Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ond na ddaw'r Biliau hynny, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac na fydd iddynt effaith Gyfreithiol heb Ein Cydsyniad Brenhinol a ddynodir drwy Freinlythyrau o dan Ein Sêl Gymreig a'n llofnod Ein Hunain, yr Ydym felly wedi peri gwneud y rhain, Ein Breinlythyrau ac wedi eu llofnodi, a thrwyddynt rhoddwn Ein Cydsyniad Brenhinol i'r Biliau hynny sydd i'w cymryd a'u derbyn fel Deddfau da a pherffaith y Cynulliad a'u rhoi ar waith yn briodol yn unol â hynny GAN ORCHYMYN HEFYD Geidwad Ein Sêl Gymreig i selio'r rhain, Ein Llythyrau â'r Sêl honno.

YN DYSTIOLAETH O HYNNY yr Ydym wedi peri gwneud y rhain, Ein Llythyrau yn Agored

TYSTIED Ein Hunain yn . . . ar y . . . dydd o . . . yn . . . blwyddyn . . .. Ein Teyrnasiad

Llofnodwyd gan y Frenhines Ei Hunan â'i Llaw Ei Hunan."

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 107(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32) ("the 2006 Act") provides that a Bill passed by the National Assembly for Wales ("the Assembly") becomes an Act on receipt of Royal Assent.

Section 115(4) of the 2006 Act provides that such a Bill receives Royal Assent when Letters Patent under the Welsh Seal signed with Her Majesty's own hand signifying Her Assent are notified to the Clerk of the Assembly.

Section 116(1) of the 2006 Act provides for there to be a Welsh Seal.

Section 116(3) of the 2006 Act provides that Her Majesty may by Order in Council make provision as to the form and manner of preparation and the publication of such Letters Patent.

This Order prescribes the form of words to be used in Letters Patent signifying Royal Assent to Bills passed by the Assembly. It also makes provision as to the preparation and publication of the Letters Patent.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 107(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006") yn darparu y daw Bil, a gaiff ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), yn Ddeddf pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol.

Mae adran 115(4) o Ddeddf 2006 yn darparu bod Bil o'r fath yn cael y Cydsyniad Brenhinol pan hysbysir Clerc y Cynulliad fod Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi eu llofnodi gan Ei Mawrhydi â'i llaw Ei Hunan i ddynodi Ei Chydsyniad.

Mae adran 116(1) o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer bodolaeth Sêl Gymreig.

Mae adran 116(3) o Ddeddf 2006 yn darparu y caiff Ei Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wneud darpariaeth ynglyn â ffurf a dull o lunio a chyhoeddi'r cyfryw Freinlythyrau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi'r ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio mewn Breinlythyrau i ddynodi Cydsyniad Brenhinol i Filiau sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd ynglyn â llunio a chyhoeddi'r Breinlythyrau.